



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LEFEL 3 DIPLOMA MEWN
ARFER ADEILADU PROFFESIYNOL**

IONAWR 2022

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

DIPLOMA MEWN ARFER ADEILADU PROFFESIYNOL

Lefel 3

Ionawr 2022

UNED 2 – CREU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r nifer bach o ymgeiswyr a safodd yr uned hon yn atal nodi unrhyw gryfderau neu ddiffygion cyffredinol.

- Cw.1 (a)** Rolau adrannau. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio rolau'r adrannau penodol, er bod 'dyfalu costau' yn ymateb a oedd yn codi'n aml ar gyfer yr adran amcangyfrif, a ystyriwyd nad oedd hyn ar lefel briodol.
- (b)** Rôl a phrif ddyletswyddau rheolwr contractau. Roedd y cynllun marcio eang yn caniatáu i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ennill marciau ar gyfer y cwestiwn hwn.
- Cw.2** Adeiledd ac amlen adeilad. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cynnig adeiledd i gyd-fynd â'r manylebau a roddwyd ac awgrymodd llawer ddefnyddio rywfaint o ddarnau parod lle nodwyd rhaglenni cyfyngedig. Roedd y cynigion ar gyfer amlenni adeilad hefyd yn cyfateb yn dda ar y cyfan i'r manylebau a roddwyd.
- Cw.3 (a)** Dulliau rheoli ar gyfer defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon. Roedd y cwestiwn yn gofyn am nodi pedwar dull rheoli ar gyfer pedwar marc. Felly, byddai datganiadau syml fel 'rhaglen gaffael' yn ennill marc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi o leiaf dau ddull addas.
- (b)** Lleihau risgiau cyflenwi/perfformiad. Cwestiwn heriol a gafodd sylw da gan ymgeiswyr a oedd yn gallu nodi risgiau ymhlyg a chynnig mesurau lleihau addas. Roedd yr ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyflenwyr neu isgcontractwyr eraill yn methu'r goblygiadau sy'n deillio o'r fanyleb a'r gweithdrefnau enwebu.
- (c)** Cofnodi digwyddiadau perthnasol. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu disgrifio cofnodion a fyddai'n darparu tystiolaeth ddefnyddiol o achosion oediadau'n ymwneud â chontract.
- Cw.4** Mesurau sicrhau ansawdd. Roedd y cwestiwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gysylltu mesurau sicrhau ansawdd â rolau penodol. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu disgrifio mesurau addas i'w cymryd gan y dylunydd a'r prif gontractwr. Roedd y mesurau i'w cymryd gan weithiwr tir yn fwy heriol ac roedd llawer o ymgeiswyr yn anglur ynghylch rôl clerch gwaith.

- Cw.5 (a)** Gweithgareddau risg uchel. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi pedwar gweithgaredd risg uchel, yn ôl yr angen ac roedd llawer yn cynnwys manylion am sut y gallai methiant neu ddiffyg mesurau rheoli achosi neu gynyddu'r risgiau.
- (b)** Y broses asesu risg. Cynhyrchodd sawl ymgeisydd ymatebion da yn seiliedig ar y 5 cam o asesu risg ac roedd llawer yn gallu disgrifio pwrpas a chynnwys datganiad dull.
- Cw.6** Manteision technegau dylunio ac adeiladu modern. Cwestiwn agored gyda chynllun marcio seiliedig ar fanciau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn yn tueddu i fod yn fyr ac nid oedd ganddynt ddigon o fanylion gydag ychydig o ymgeiswyr yn ystyried manteision sy'n deillio o effeithlonrwydd adeiladu, egni a rhaglenni.

DIPLOMA MEWN ARFER ADEILADU PROFFESIYNOL

Lefel 3

Ionawr 2022

UNED 3 – GWERTHFAWROGI A DEFNYDDIO'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r nifer bach o ymgeiswyr a safodd yr uned hon yn atal nodi unrhyw gryfderau neu ddiffygion cyffredinol.

- A.1** Mecanweithiau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gymuned leol. Testun hygyrch lle'r oedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio dau fecanwaith addas yn ddigon manwl.
- A.2** Y berthynas rhwng contractwyr a grwpiau o randdeiliaid yn ystod yr adeiladu. Cwestiwn hygyrch arall gyda llawer o ymgeiswyr yn disgrifio rhagofalon rhesymol a fyddai'n cyfyngu ar darfu ar y rhanddeiliaid penodol.
- B.1** Egwyddorion dylunio cynaliadwy. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio dwy fantais, yn ôl yr angen, gan amlaf yn deillio o gyfyngu ar allyriadau carbon a'r defnydd o danwydd ffosil.
- B.2** Datrysiadau dylunio cynaliadwy ar gyfer elfennau adeiladu penodol. Roedd y cwestiwn yn gofyn am gynigion ar gyfer saith elfen adeiladu yn amrywio o adeiledd i dirlunio, gyda 2 farc ar gael ar gyfer pob cynnig. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth dda am ddatrysiadau dylunio cynaliadwy a gwnaethant ennill y rhan fwyaf o'r marciau a oedd ar gael. Collodd rhai ymgeiswyr farciau drwy gynnig yr un datrysiad ar gyfer sawl elfen adeiladu.
- C.1** Ystyriaethau i hybu iechyd a lles. Cwestiwn heriol yr aeth llawer o ymgeiswyr i'r afael ag ef yn dda, gan gymryd sylw llawn o'r is-benawdau a ddarparwyd a disgrifio ystyriaethau dylunio rhesymol.
- D.1** Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Mae pwrpas a defnydd DPA fel gwerth mesuradwy a ddefnyddir i ddangos pa mor effeithiol y mae contractwr yn perfformio yn ystod y cyfnod adeiladu yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach gan nad oedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi DPA addas.
- D.2** Glanio meddal a manyleb lefel y gwasanaeth. Mae pwrpas a chynnwys strategaeth glanio meddal hefyd yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach, gan mai ychydig o ymgeiswyr a oedd yn gallu dangos dealltwriaeth o'r adran hon o'r fanyleb.
- D.3** Gwasanaethau ôl-ofal. Yn gyffredinol, fel gyda D.2, ychydig o ymgeiswyr a ddangosodd ddealltwriaeth o'r adran hon o'r fanyleb.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk